# "Ŵyr Syr John ddim am yr Orsedd"

**EMYR ap DYFNAN yn cofio Wil Ifan o Fôn**

Diolch i Ddafydd Wyn Wiliam am ei ysgrif ar Wil Ifan o Fôn yn y rhifyn diwethaf o'r **Casglwr.** Bûm yng nghwmni y gŵr hynod hwn o dro i dro yn ystod y blynyddoedd.

Dywed D.W.W. fel y bu Wil Ifan yn werthwr peiriannau gwnio Singer, dywed hefyd am ei ymgais i brofi fod ffordd Rufeinig yn rhedeg ar draws Ynys Môn. Amcan Wil Ifan wrth geisio olrhain y ffordd filwrol hon oedd dangos bwriad y Rhufeiniaid i groesi o Fôn a goresgyn Iwerddon.

Roedd y ffordd yn ei dyb ef yn rhedeg o'r Garth (glanfa ym Môn gyferbyn â Bangor) hyd at Borth Trwyn a Phorth Swtan (yng ngogledd Orllewin yr Ynys) Porth Swtan a enwyd meddai ar ôl Paulinus Suetonious.

Rhed y ffordd ar ei hunion ar draws y Sir, ac fe'i olrheinir heddiw gan lwybrau ac ambell hen ffordd gul. Mewn un man ceir olion gwersyll Rhufeinig o bob tu iddi ac enwau fel Bryn Eryr, Maen Eryr, Cad-lys ayb. (Eryr oedd ar faner y Rhufeiniaid).

Enynnwyd fy niddordeb wrth iddo ddweud fod y lôn a arweiniai i'r Wigoedd fy nghartref yn rhan ohoni a gallaf ei dilyn y rhan fwyaf o'i thaith ar ôl cael ei gyfarwyddyd ef.

* * *

MAE'R dull a gymerodd i ddod o hyd i'r ffordd mewn rhai mannau yn gysylltiedig â'i waith fel gwerthwr peiriannau Singer. Ar gefn beic y teithiau gyda'r gorchwyl hwn, a chafodd gan John Hughes y gof ym Mhentraeth weithio tair gwialen haearn ysgafn iddo. Rhwymodd y rhain ar ei feic, yna pan feddyliai ei fod yn croesi y ffordd Rufeinig, neidiai oddi ar ei feic, gafaelai yn y tair gwialen haearn ac âi trosodd i'r caeau yn ymyl gan wthio y gwialennau i'r ddaear ac wrth wneuthur hynny canfod caledwch y ffordd o dan y pridd.

Daw'r ddamcaniaeth hon i'r amlwg yn ystod y blynyddoedd diweddar, yng ngwaith y Bwrdd Dŵr yn agor ac yn glanhau afonydd a nentydd Môn. Canys wrth wneud y gwaith hwn ar afon Ceint codasant fawn du nes cyrraedd y man y croesai'r ffordd Rufeinig yr afon.

Yno codasant glai melynwyn a cherrig am dair neu bedair llath cyn mynd ymlaen a chodi mawn drachefn. Mae llwybr heddiw yn croesi'r afon yn yr unlle ar nad yw yn arwain i unman arbennig.

Gwn, fel y dywed D.W.W. yr wfftir syniadau Wil Ifan gan rai ysgolheigion, yn y gorffennol tra bod eraill heddiw yn datgan eu diddordeb.

* * *

DO, BU Wil Ifan yn aelod o Orsedd Beirdd Môn, ond credaf iddo golli diddordeb yng Ngorsedd Môn ym mlynyddoedd y tri degau gan iddi agor ei phorth yn rhy lydan i'r rhyw deg yn ei dyb ef nes iddo ei bedyddio yn Orsedd y Bais.

Ni fynnai ei alw yn fardd na phrydydd ond yn hytrach DERWYDD, ac ymfalchïai ei fod yn saer maen fel ei arwr Iolo Morganwg.

Yn ystod eisteddfod Gadeiriol Môn a gynhaliwyd yn Llangefni y Llun a Mawrthgwyn 1924 llywyddai Syr John Morris Jones gyafrfod fore Mawrth.

Yn ystod ei araith cyfeiriodd "fod Lewis Morris a'i gydoeswyr wedi rhoddi bywyd newydd i'r gynghanedd a chredai mai eiddigedd Morgannwg at Fôn a Gwynedd barodd i Iolo Morganwg roddi pethau disail mewn arferiad (cyfeiriad at yr Orsedd) a drwg oedd ganddo weled beirdd Môn yn ei ddilyn, ac y llawenychai pe byddai beirdd Môn yn cychwyn rhyw fudiad newydd".

Gwahoddwyd Wil Ifan yn un o dri bardd i gyfarch y llywydd ac ar ôl iddo foli Syr John yn ei gywydd cyfarch, trôdd yn ei ôl gan ddweud â llais uchel "Ond ŵyr o ddim byd am Orsedd y Beirdd", nes creu chwerthin mawr drwy'r gynulleidfa.

Roedd yn gynganeddwr rhwydd ac ymfalchïai yn ei orchest o lunio englyn bob pum munud am awr gyfan ar destunau a roddai ei wraig iddo ar y pryd.

* * *

BU FYW yn llythrennol rhyw lathan neu ddwy o'r traeth yn y Traeth Coch. Os byddai i annerch oddi ar lwyfan yr Eisteddfod neu oddi ar y Maen Llog manteisiai ar y trai, a phan fyddai'r distyll ar ei fan bellaf cerddai hyd at y môr yna trôi ei gefn arno, a chan wynebu'r tir dechreuai ar ei araith ac os clywai ei gi yn ei ateb o'r buarth gartref gwyddai ei fod yn glywadwy.

Fel y gŵyr llawer mae ei lyfrau yn brin. Rai blynyddoedd yn ôl digwyddais ddod ar draws pecyn o'i lyfr 'The Meini Hirion and Farms of Anglesey' heb eu rhwymo yn argraffdy W.O. Jones, Llangefni. Erbyn heddiw mae rhai o'r rhain wedi eu rhwymo.

Ynddo trafodir, ymhlith pethau eraill bwrpas y Meini Hirion. Yn ôl Wil Ifan, hwy a ddangosai'r ffiniau a therfynau y rhaniadau tir a fu yn yr oesoedd cynnar, 343 ohonynt sydd yn rhyfedd iawn yn cyfateb i'r 343 tref oedd ym Môn yn amser Gerallt Gymro.


# R.G. & J.E. YOUNG

## The Forge, Llanystumdwy, Cricieth

**Llyfrau prin a hen, mapiau, printiau ar werth ac yn eisiau. Cludiad yn ychwanegol.**

**Pob gohebiaeth i R.G. & J.E. Young, 'Llwyn', 14 Gwaun Ganol, Cricieth, Gwynedd LL52 0TB.**

**Ffôn: Cricieth 076 671 2643**

1913. THE NEW WALES. Some aspects of National Idealism with a plea for Welsh Home Rule, gan Gwilym O Griffiths, 8vo 98 tud. Cloriau papur brown. £10.00

1928 FRANCIS GREEN of Denmark Hill Surrey and His Descendants 2nd edition. (Revised & Enlarged) printed for private circulation. Cyflwr da 51 tud. 8vo ½ Croen glas.

HEFYD 3.12.1928 Hand written letter to John Ballenger from Lord Bishop of Bangor. "Study pages 42-48 because the printed accounts of the Williams Family are none of them correct". £48.00

1942. MARWNAD A YSGRIFENNWYD MEWN MYNWENT WLEDIG. (Elegy written in a country Churchyard. Thomas Gray. Peth staen ar y clawr. Dinas Mecsico argraffwyd gan 'The American Book and Printing Company'. Darluniau o waith Mr R Hesketh. £ 8.00

1858 THE GEOLOGICAL STRUCTURE OF MEIRIONETHSHIRE & CAERNARVONSHIRE by Prof. A.C. Ramsay. Illus. by a Panoramic Diagram drawn from the summit of Cader Idris by P.W. Hewgill, re-printed from the Geologist. Lliain gwyrdd 8vo 3' 10"× 4". Diagram Plygedig. Ychydig staen inc. 8 tud. o destun. £45.00

1930 DINORWIG OR FELINHELI SLATE QUARRIES. 8vo. Cloriau papur llwyd, lluniau du a gwyn. £35.00

1940 A LAST APPEAL TO REASON by Adolf Hitler. Speech before the Reichstag, 19 July 1940. 4 tudalen ar ffurf papur tabloid. Peth melynu. Dyfyniad – In this hour I feel it to be my duty before my own conscience to appeal once more to Reason and common sense. In Great Britain as much as elsewhere I consider myself in a position to make this appeal since I am not the vanquished begging favours, but the victor speaking in the name of reason. I can see no reason why this war must go on. £50.00

1900 THE LIFE, TIMES AND LABOURS OF ROBERT OWEN by Lloyd Jones. 8vo 3ydd arg. 443 tud. Ailrwymwyd. Lliain gwyrdd. £20.00

1908 A MUNICIPAL HISTORY OF LLANIDLOES by E.R. Horsfall-Turner. 8vo Lluniau 271 tud. Ailrwymwyd. LLiain coch. Da. £22.00

1776 THE WORTHINESS OF WALES by Thomas Churchyard. A Poem. 'A true note of the ancient castles, famous monuments, goodly rivers, faire bridges, fine townes, courteous people that I have been in the noble countrie of Wales'. Reprinted from the edition of 1587. For Thomas Evans in 'The Strand'. 8vo Lledr. Gwisgo ar y cefn. 128 tud. £60.00

1923 R. Mortimer Wheeler, SEGONTIUM – THE ROMAN OCCUPATION OF WALES (Y Cymmrodor) Vol XXXIII. Clawr papur gwreiddiol. £10.00

PUM LLYTHYR: Lord Harlech, T.G. Jones, Margaret Ll. George, J. Rhys, Wm. Rees (1902-1938). Ymholer am fwy o wybodaeth. Y Cyfan am £50.00